

**Adroddiad Briffio Polisi:**

## **Y Gymraeg fel grym Cymunedol ac Economaidd**

**Cyfes Seminar y Gymraeg a Pholisi Cyhoeddus  
wedi'i threfnu gan  
Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru  
Prifysgol Aberystwyth, Gwanwyn 2014**

### ***Cyd-destun y gyfres seminar***

Trefnwyd cyfres o dair seminar yng ngwanwyn 2014 yn sgil yr amryw o gyhoeddiadau arwyddocaol o ganol 2013 ymlaen i annog trafodaeth fanwl o'r adroddiadau a'r cynigion polisi diweddar yn ymdrin â'r Gymraeg. Ystyriwyd hi'n amserol i gynnal cyfres seminar yn dwyn ynghyd lunwyr polisi, academyddion a chynrychiolwyr o gymdeithas sifil dan amodau 'Chatham House'. Y gobaith oedd y byddai'r gyfres yn darparu cyfle i gloriannu datblygiadau polisi cyfredol ac fel cam cyntaf yn y broses o sefydlu rhwydwaith a fyddai'n cynnull yn rheolaidd gynrychiolwyr o'r sectorau uchod i drafod datblygiadau pwysig ym maes polisi a chynllunio iaith, boed hynny'n fentrau polisi llywodraethol, yn waith ymchwil academaidd neu'n ddatblygiad perthnasol arall.

Diolchwn i Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru am eu cymorth ariannol i hwyluso'r gyfres seminar ac i Gwenan Creunant am ei chefnogaeth drefniadaethol effeithiol dros ben. Mawr ddiolch i'r cyfrannwyr, yn gyflwynwyr ac yn fynychwyr, am eu parodrwydd i fod yn rhan o ymdrech i annog trafodaeth fanwl a threiddgar am y datblygiadau polisi hyn ym maes y Gymraeg.

### **Cyflwyniad**

Trafodwyd tri adroddiad yn gysylltiedig â'r Gymraeg fel grym cymunedol ac economaidd yn y seminar hwn. Yn rhan un y seminar rhoddwyd sylw i '*Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth*'.<sup>1</sup> Gyda'i wreiddiau yn amcan strategaeth Llywodraeth Cymru *Iaith Fyw: Iaith Byw* i ddatblygu 'strategaeth glir ynghylch sut gellid manteisio ar y Gymraeg fel ased economaidd'<sup>2</sup>, cyhoeddwyd adroddiad y grŵp a gadeiriwyd gan Elin Rhys ym mis Ionawr 2014. Yn y seminar, cyflwynwyd yr adroddiad gan Dr Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth, oedd yn un o aelodau'r grŵp a chafwyd ymateb ffurfiol Llŷr Roberts, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol De Cymru. Cyhoeddwyd ymateb ffurfiol y Llywodraeth ym mis Gorffennaf 2014.

Yr ail adroddiad a drafodwyd oedd '*Potensial y Gymraeg i gyfrannu at wireddu amcanion Rhaglenni Ariannu Ewropeaidd 2014-2020*' a gyhoeddwyd gan

---

<sup>1</sup> Gellir gweld yr adroddiad llawn yma:

<http://wales.gov.uk/docs/det/publications/140130wledcy.pdf>

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, 2012, *Iaith Byw: Iaith Fyw – Strategaeth y Gymraeg 2012-17*, tudalen 34.



Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Tachwedd 2013.<sup>3</sup> Cynhyrchwyd y ddogfen fel rhan o ymateb Comisiynydd y Gymraeg i'r cyfrifiad, gyda'r amcan o adnabod ymyriadau posibl mewn Rhaglenni Ariannu Ewropeaidd 2014-2020 allai sicrhau budd economaidd ac ieithyddol. Yn y seminar, cyflwynwyd yr adroddiad gan Wynfford James, swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Cafwyd ymateb ffurfiol gan Nerys Fuller-Love, darlithydd yn Ysgol Rheolaeth a Busnes, Prifysgol Aberystwyth.

Yr adroddiad olaf a drafodwyd oedd '*Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe*' wedi'i gomisiynu gan y Llywodraeth a'i gynhyrchu gan Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd a Chwmni Sbectrwm.<sup>4</sup> Bwriad yr adolygiad oedd ystyried dulliau a gweithgareddau'r Mentrau, y strwythurau a'r lefel cyllid iddynt, ynghyd â'r potensial i ddatblygu rôl y mentrau ac unrhyw ddyblygu neu or-gyffwrdd gyda gwaith cyrff eraill. Cyhoeddwyd ymateb ffurfiol y Llywodraeth i'r adroddiad ym mis Mawrth 2014.<sup>5</sup> Yn y seminar, cyflwynwyd yr adroddiad gan Cefin Campbell, Sbectrwm, a fu'n rhan o'r broses ymchwil a chafwyd ymateb ffurfiol gan Dr John Glyn. Cadeiriwyd y seminar gan Dr Huw Lewis.

### **Rhan 1 - Prif bwytiau'r drafodaeth o 'Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd'**

#### ***Safbwyntiau cyffredinol ar yr adroddiad***

Cyfeiriwyd at yr adroddiad fel un defnyddiol a realistig allai godi perthynas yr iaith Gymraeg a'r economi yn uwch ar yr agenda. Canmolwyd ef am wneud defnydd effeithiol o ieithwedd economaidd i annog gwerthu budd a manteision masnachol ac economaidd yr iaith Gymraeg gan nad yw hyn wedi ei wneud yn ddigonol hyd yma. Cefnogwyd y modd roedd yr adroddiad yn amlygu'r angen am ddata i dynnu sylw at werth economaidd y Gymraeg. Roedd y gyfres o argymhellion ymarferol y gellid eu gweithredu yn gryfder.

<sup>3</sup> Gellir gweld yr adroddiad llawn yma: <http://www.comisiynyddygybraeg.org/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/manylioncyhoeddiad.aspx?publicationid=1d1472ae-a000-4a67-9a27-a5ae1d231458&category=advice%20documents>

<sup>4</sup> Gellir gweld yr adroddiad llawn yma: <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130130-adroddiad-y-mentrau-cy.pdf>

<sup>5</sup> Gellir gweld yr ymateb ffurfiol yma: <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/140324-response-to-mentrauiath-report-cy.pdf>



### ***Perthynas iaith ac economi***

Tra roedd croeso clir i'r adroddiad ymysg rhai o'r mynychwyr, roedd teimladau eraill yn fwy cymysg. I rai, roedd yn bwysig o ran sefydlu agenda yn enwedig yng nghydestun cyndynrwydd y llywodraeth i drafod y pwnc. I eraill, tra bod yr adroddiad yn rhoi sail i drafodaethau maes o law, roedd yr adroddiad yn codi cymaint o gwestiynau ag oedd yn ei ateb ac roedd wedi colli cyfle. Tra'n gwerthfawrogi bod y dasg o ystyried iaith ac economi yn un sylweddol gan fod y maes yn eang, dadleuwyd na lwyddwyd i ddadelfennu'r maes a dehongli'n ddigon clir beth sydd dan ystyriaeth wrth siarad am iaith ac economi. Ar un pegwn, gallai gynnwys popeth i'w wneud â'r iaith a phopeth i'w wneud â'r economi. Ar begwn arall, gallai gael ei gyfyngu i ddefnydd o'r Gymraeg yn y maes economaidd. Gellid fod wedi ceisio bod yn gliriach wrth ddehongli a diriaethu'r maes mewn modd fyddai'n ei gwneud hi'n haws i wahanol swyddogion cyrff sector gyhoeddus a phreifat ddeall gwahanol agweddau ar y berthynas a sut i fynd ati i weithredu er budd yr economi a'r Gymraeg.

### ***Lefelau datblygu iaith ac economi***

Dadleuwyd y gallai'r adroddiad fod wedi sôn yn fwy penodol am y lefelau gweithredu a pha ffactorau oedd angen eu blaenoriaethu: strwythur cysylltiadau trafniadaeth, buddsoddi mewn diwydiannau neu fentergarwch ar lefel gymunedol?

Yn gysylltiedig â hyn, trafodwyd gwahanol elfennau gofodol fyddai'n dylanwadu ar ddatblygiad economaidd ac iaith. Trafodwyd y syniad o barthau iaith economaidd sydd wedi ei argymhell mewn dau o'r adroddiadau diweddar (yr adroddiad hwn a'r Adroddiad ar yr Ardaloedd Canrannau Uwch). Tra bod hyn yn syniad diddorol â photensial, roedd angen dysgu o brofiad y gorffennol. Yn ogystal, roedd peth amheuaeth a fyddai gwleidyddion yn barod i gymryd penderfyniadau dadleuol wrth bennu tua 5-6 clwstwr yn hytrach na gwasgaru buddsoddiad yn fwy tenau.

Awgrymwyd hefyd nad oedd yr adroddiad wedi ymateb yn ddigonol i fentrau economaidd cyfredol Llywodraeth Cymru. Codwyd dinas-ranbarth Abertawe a'r ffaith ei bod yn ymestyn i ardal Caerfyrddin yn gofyn am gydnabyddiaeth gryfach o'r goblygiadau i'r Gymraeg yn y datblygiad. Ni chredid chwaith y rhoddwyd ystyriaeth ddigonol i ardaloedd menter y llywodraeth a sut gellid cyplysu hynny'n ddigonol gyda mentrau iaith / economi. I wneud hynny'n ystyrlon, roedd angen dadansoddiad cryfach o sut i fynd ati i weithredu'n economaidd er budd yr iaith a hyrwyddo'r Gymraeg er budd yr economi.

Yn ychwanegol at yr elfennau gofodol uchod, anogwyd hefyd ystyried datblygiadau sectoraidd a meddwl am ddiddordebau penodol ym maes yr iaith ac economi, megis technoleg a'r iaith Gymraeg.



### ***Yr 'allfudiad'***

Gwerthfawrogydd fod hyn yn fater gwleidyddol sensitif a heriol i Lywodraeth Cymru, ond ar yr un pryd, nodwyd nad oedd ystyriaeth ddigonol wedi ei roi yn yr adroddiadau diweddar i ddelio gyda'r allfudiad a chadw pobl yn eu hardaloedd. Tra bod yr adroddiad hwn wedi argymhell adferiad prosiect Llwybro, ystyrid bod allfudo'n fater allweddol o ran cynllunio ieithyddol a chryfhau cysylltiadau iaith-economi.

### ***Prif Ffrydio: yr her i Lywodraeth Cymru***

Ystyriwyd taw'r brif her i Lywodraeth Cymru oedd sut i gydlynu a phrif ffrydio polisi iaith mewn cyd-destun mor anodd â'r maes economaidd. Tynnwyd sylw at y modd mae'n gofyn am ymagwedd llywodraeth gyfan a dod â staff o sectorau allweddol at ei gilydd mewn cyfuniadau o'r newydd: gweinidogion a swyddogion yr Uned Iaith Gymraeg, datblygu economaidd a maes sgiliau yn yr adran addysg.

### ***Tystiolaeth ac ymchwil***

Heblaw am rai darnau o waith academiaidd, wynebwyd her wrth gynhyrchu'r adroddiad o ran prinder ymchwil a thystiolaeth. Tra'n cydnabod bod hyn yn broblem, dadleuwyd bod rhai darnau ymchwil perthnasol sydd heb eu dadansoddi yn llawn o bersbectif ystyried y Gymraeg. Nodwyd hefyd bod cyfle wedi'i golli i ddatblygu darlun ystadegol hir dymor o sefyllfa siaradwyr Cymraeg mewn meysydd economaidd a statws gwaith. Datblygwyd gwaith dechreuol wrth ddadansoddi cyfrifiad 1981 ac 1991 ond ni chafodd ei barhau gyda chyfrifiad 2001 a 2011.

Wrth ystyried yr angen am fwy o dystiolaeth o ansawdd uchel, trafodwyd pa fathau o waith ymchwil sydd ei angen yn y maes hwn. Y farn oedd y dylid cael sefyllfa debyg i feysydd eraill aeddfetach, lle gellir ystyried amrywiol ddangosyddion meintiol fel ffordd o adnabod meysydd ifuddsoddi ynddynt i gael ymchwil ansoddol i greu darlun dadansoddol. Hyd yma, yr argraff oedd bod y Gymraeg ar y cyrion i ddatblygiadau o'r fath. Yn gefnlen i'r diffygion data hyn, nodwyd y diffyg ymchwil i Gymru mewn ysgolion busnes yng Nghymru, a'r modd nad yw blaenoriaethau'r cynghorau ymchwil yn annog ymchwil i ddatblygiadau o'r fath yng Nghymru.

Er y galw am ymchwil a thystiolaeth bellach, pwysleisiwyd bod angen ystyriaeth gytbwys hefyd i'r sefyllfa ar lawr gwlad. Dylid bod yn glir i ba bwrpas y casglir data a pha ddata fyddai'n fwyaf priodol i ddelio gyda sialensiau penodol, megis data'n gwerthuso gwerth dilyniant addysg Gymraeg.



**Rhan 2 - Prif bwyntiau'r drafodaeth o 'Potensial y Gymraeg i gyfrannu at wireddu amcanion Rhaglenni Ariannu Ewropeaidd 2014-2020'**

***Safbwyntiau cyffredinol ar yr adroddiad***

Croesawyd yr adroddiad fel un pwysig yn wyneb yr angen i sicrhau defnyddio arian Ewropeaidd i ddatblygu'r iaith a'r economi. Gwerthfawrogwyd y gydnabyddiaeth yn y ddogfen o'r cysylltiad rhwng yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd, yn enwedig yr adnabod meysydd penodol lle ceid y gor-gyffwrdd pennaf rhwng y ddau faes a lle gellid creu buddion a manteision ieithyddol ac economaidd ar y cyd (Gweler 1.7 yn y ddogfen). Ystyriwyd hyn yn ganllaw defnyddiol oedd yn ymateb i'r bwlch yn yr adroddiad drafodwyd gyntaf.

***Sectorau***

Canolbwyntiodd yr adroddiad ar sectorau busnes penodol a bennwyd oedd yn hynod berthnasol o ran y Gymraeg: twristiaeth, bwyd-amaeth a'r diwydiannau creadigol. Trafodwyd beth oedd goblygiadau cynnwys diwydiannau creadigol fel rhan o hyn gan fod y maes hwnnw'n ei chanfod hi'n heriol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nodwyd bod potensial ystyried y clystyru yn y sector honno, er enghraifft yng nghyd-destun rhanbarthol fel dinas-ranbarth y Gorllewin. Cwestiynwyd a oedd sylw digonol wedi cael ei roi i faterion fel effaith datblygiad fel yr Wylfa ar y Gymraeg a sut y gellid ystyried hynny ochr yn ochr â datblygiadau mewn rhaglenni Ewropeaidd.

***Buddion a manteision ieithyddol ac economaidd ar y cyd***

Yn wyneb yr her o greu dealltwriaeth well o'r gydberthynas bosib rhwng iaith ac economi, cynigwyd y fframwaith canlynol gan Wynfford James fel ffordd o ddod â gwahanol elfennau at ei gilydd. Gallai greu rhaglen waith bosib ar gyfer y rhaglenni Ewropeaidd a hefyd ddarparu fframwaith i ymateb i'r adroddiadau diweddar sydd wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar yn ymwneud â'r Gymraeg yn cynnwys cyfeiriadau at yr iaith a'r economi. Y gobaith oedd y byddai'r fframwaith yn ffordd o gyfathrebu'r mater i wleidyddion. Fe'i hystyriwyd fel fframwaith defnyddiol yn y seminar.





*Diagram drwy ganiatad Wynfford James*

### **Posibiliadau ar gyfer y Gymraeg yn rhaglenni ariannu Ewropeaidd 2014-2020**

Trafodwyd cynlluniau i ddatblygu Marchnad Lafur Gymraeg ar draws sectorau ac yn benodol meysydd lle mae galw am y Gymraeg fel rhan o natur y ddarpariaeth neu lle gall datblygu sector sy'n bwysig i ardal arwain at gynnig swyddi i bobl yn eu hardaloedd. Mae'r gwaith wedi'i arwain gan rai o'r mentrau iaith a galw am fwy o gymhwysedd i ddatblygu'r gwaith yn bellach yn ogystal â sicrwydd o ran arian cyfatebol.

Awgrymwyd y byddai cael rhaglen lle roedd y Gymraeg yn ganolog iddi yn y rhaglenni 2014-2020 yn fantais fawr gan y gallai ddylanwadu ar raglenni eraill yn hytrach nag amgylchiadau lle bo hi'n fwy o her i gael dylanwad gydag ychydig o arian i'r Gymraeg ar draws rhaglenni yn unig.

### **Gwireddu prif ffrydio**

Gyda'r adroddiad yma eto credwyd ei fod yn amlygu pa mor heriol yw prif-ffrydio'r Gymraeg. Trafodwyd yr angen am fecanweithiau i wireddu hynny. Tra bo'r Gymraeg yn un o feini prawf asesu unrhyw gais am arian Ewropeaidd drwy gyfrwng blwch am y Gymraeg fel un o'r meysydd trawsbynciol ymhob cais, y farn oedd nad oedd hynny'n sicrhau ystyriaeth ystyrion o'r Gymraeg. Dadleuwyd bod angen mwy o



ystyriaeth i'r Gymraeg mewn asesiadau, megis gallu asesu cynllun staffio'n amlinellu anghenion sgiliau iaith Gymraeg. Gan fod y trefniadau presennol wedi bodoli cyhyd, credwyd y byddai'n anodd eu newid gyda'r risg y byddai'r tueddiad 'tick-box exercise' o ystyried y Gymraeg yn parhau.

Trafodwyd mecanweithiau a ffyrdd o gryfhau'r ystyriaeth o'r Gymraeg. Un enghraifft oedd efelychu sut mae WEFO wedi penodi person i ystyried effaith wledig y rhaglenni Ewropeaidd ym maes y Gymraeg drwy gael person yn gyfrifol am asesu traweffaith rhaglenni ar y Gymraeg a sut ellid manteisio ar botensial y Gymraeg i wireddu amcanion y rhaglenni. Argymhellwyd hefyd y dylid cymharu'r Gymraeg gydag agenda merched ym myd datblygu economaidd o fewn rhaglenni blaenorol. Oherwydd i lobio effeithiol fod yn llwyddiannus yn yr achos hwnnw mae'n flaenoriaeth yn y rhaglenni Ewropeaidd ac arian penodol wedi'i neilltuo ar ei gyfer. Yn yr un modd, awgrymwyd bod maes datblygu cynaliadwy yn rhoi arweiniad ar sut i ddelio gyda'r Gymraeg fel dyrys broblem gan ei bod yn wynebu amgylchiadau cyffredin.

Uwchlaw'r materion hyn, mynegwyd bod cyfannu'r holl faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn un o'r problemau sylfaenol yn Llywodraeth Cymru. Tra bod hyn yn cael ei weithredu'n ffurfiol drwy'r Prif Weinidog, mae'n parhau'n broblem fawr yn ymarferol. Y tu hwnt i Is-Adran y Gymraeg, mae cymaint o adrannau eraill y llywodraeth yn gweithredu mewn ffyrdd sy'n effeithio ar y Gymraeg. Ystyriwyd bod angen canfod mecanweithiau o fewn y llywodraeth i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ym mhenderfyniadau'r adrannau hynny. Gellid ystyried mesurau tebyg i'r rhai sydd wedi eu cyflwyno i ystyried cydraddoldeb.

I gloi, tra bo'r adroddiad hwn wedi amlygu'r cyfleon, yr her oedd bod partneriaethau a chonsortia yn mynd ati i ddatblygu'r gwaith ymhellach. Yn gyfochrog, dadleuwyd bod angen ymgysylltu gyda gweision sifil a swyddogion mewn gwahanol adrannau perthnasol o'r llywodraeth ac ar lefel ranbarthol wrth i'r rhaglenni gael eu datblygu er mwyn gwireddu'r dyhead i gael rhaglenni sy'n ymdrin â'r Gymraeg mewn modd ystyrlon.

### **Rhan 3 – Prif Bwyntiau'r Drafodaeth o 'Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe'**

#### ***Sylwadau Cyffredinol ar yr Adolygiad***

Cydnabuwyd bod yr adolygiad wedi gwneud ymdrech lew i geisio adnabod cryfderau a gwendidau'r Mentrau gyda pharodrwydd i adlewyrchu'n feirniadol ac yn adeiladol ar y gwendidau ac ysgogi Llywodraeth Cymru i ymateb. Ystyriwyd yr argymhellion fel





rhai gwerthfawr allai helpu'r Mentrau i ganfod eu llwybr ymlaen. Fodd bynnag, yr argraff oedd nad oedd dymuniad i herio rhyw lawer ar y safbwynt 'status quo' mai cefnogi'r mentrau sy'n briodol gan mai argymell rhywfaint o newidiadau trefniadol er mwyn cynyddu eu heffeithiolrwydd a'u hardrawiad a wneir. Awgrymwyd ei bod yn sialens gweithredu rhai o'r argymhellion o ran cydlyniad gwell. Os yw o ddifrif am sicrhau cyfraniad gwirioneddol i'r Mentrau, dadleuwyd bod her benodol i Lywodraeth Cymru ymhlyg yn yr adroddiad sef darparu arweiniad strategol drwy strategaeth iaith genedlaethol gyfannol a chydlynol sydd hefyd yn cymryd ystyriaeth o effaith polisiau ehangach y llywodraeth ar y Gymraeg,

#### ***Awdurdodau lleol – goblygiadau ad-drefnu a'r Safonau iaith***

Rhagwelwyd y byddai ail-strwythuro awdurdodau lleol Cymru yn sgil adolygiad Comisiwn Williams o wasanaethau cyhoeddus yn arwain at effeithio'n uniongyrchol ar y Mentrau. Roedd peth pryder y gallai hyn gael effaith negyddol arnynt a hyn yn cael ei ategu gan yr agwedd amwys at lywodraeth leol yn yr adroddiad.

Yn yr un modd, rhagwelwyd y byddai'r safonau iaith yn creu gofynion statudol gwahanol ar ddarparwyr yn enwedig felly o ran hyrwyddo a darparu gwasanaethau. Un mater a godwyd oedd y gallai gosod safonau arwain at rai dyletswyddau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol yn syrthio ar y Mentrau iaith. Mater arall oedd pe na fyddai'r safonau'n cael eu gweithredu yna byddai o bosib mwy o bwyslais ar orfodi darparu. O'r herwydd, rhagwelwyd y gallai hinsawdd gael ei greu ble y gallai darparwyr gwasanaethau statudol ymagweddu at y Gymraeg mewn ffordd wahanol oherwydd bod yna ganlyniadau i beidio gwneud.

#### ***Cadw'r nifer presennol o Fentrau neu ail-strwythuro?***

Gan ymateb i argymhelliad trefniadau rhanbarthol gaiff ei ddylanwadu gan ad-drefnu tebygol llywodraeth leol, trafodwyd y dadleuon dros ac yn erbyn cadw'r nifer presennol o Fentrau iaith. O safbwynt y llenyddiaeth ar fentergarwch a chreu newid, nodwyd bod y pwyslais yn gynyddol ar werth y lefel micro / lleol a bod effeithiau o'r fath yn cael eu colli wrth ranbartholi. I rai felly, lefel dyffryn a chwam yw sail adfywio ieithyddol a gweithredu ar y lefel honno gyda gwirfoddolwyr yn lleol yw cryfder y Mentrau. O'r herwydd, o'r safbwynt hwn, byddai angen bod yn eithriadol o ofalus wrth drafod ail-strwythuro a strwythur rhanbarthol rhag colli'r arbenigedd a'r ddealltwriaeth lefel micro sy'n bodoli o fewn y Mentrau.

I eraill, er cydnabod y gwaith pwysig sydd wedi ei wneud gan y Mentrau ers eu sefydlu, mae lle i ail-strwythuro a datblygu fframwaith cliriach iddynt. O'r safbwynt hwn, ni ddylai ail-strwythuro o reidrwydd leihau'r gallu i fod yn lleol. Trafodwyd cynlluniau megis y dinas ranbarthau a'r modd y gallai fod yn briodol cael



Menter iaith yn gweithredu ar draws ardaloedd dinas-ranbarthau a gwerth cysylltu hynny gyda'r drafodaeth am ail-strwythuro.

Gallai ailstrwythuro hefyd fod yn fodd ymateb i rai o'r materion eraill a godwyd yn yr adolygiad megis cysondeb gwasanaeth, sgiliau ac ansawdd ac arwain at gryfhau'r arweiniad ar lefel uwch, mewn gwell safle i ddatblygu a chadw arbenigedd ac i gryfhau cyd-destun strategol i'r Mentrau.

### **Swyddogaethau'r mentrau**

Roedd gwahaniaeth barn o ran yr hyn ddylai fod yn swyddogaeth graidd y Mentrau. I rai, eu swyddogaeth bennaf yw ymyrryd yn strategaethau a pholisïau cyrff eraill â mwy o ddylanwad ym maes polisi cyhoeddus, megis awdurdodau lleol. Dyna'r modd o sicrhau bod y Mentrau, sydd ag ond ychydig o staff, yn gerbydau pwerus i yrru'r maes cynllunio iaith yn ei flaen. Nodwyd fodd bynnag, bod derbyn arian gan y llywodraeth neu lywodraeth leol yn gallu effeithio'n uniongyrchol ar allu'r Mentrau i ymyrryd ac yn gallu creu anhawster i'r swyddogaeth honno.

O ran darparu gwasanaethau, derbyniai rhai'r rôl honno fel un interim nes bod corff priodol (e.e. awdurdod lleol) yn datblygu'r capasiti, y gallu a'r cyfrifoldeb i ddarparu yn Gymraeg. Honnai rhai na fyddai darpariaeth ar gael pe na bai'r Mentrau yn ei gynnig. Hyd yn oed o lwyddo i gael corff i ddarparu'n Gymraeg, mewn rhai rhannau o Gymru eglurwyd bod Menter yn aml yn gorfod dychwelyd i ddarparu eu hunain.

Tynnwyd sylw at dueddiadau ehangach o ran dosbarthu (*outsource*) cynifer o wasanaethau awdurdodau lleol i gyrrff trydydd sector a chwmnïau preifat fel rhan o dueddiad pellach i grebachu'r sector gyhoeddus gan newid y model o wasanaethau. Mewn cyd-destun o'r fath, lle mae bron iawn yr holl wasanaethau'n cael eu dosbarthu'n allanol, y risg oedd bod cwmnïau / cyrff yn Lloegr yn darparu gwasanaethau heb ystyriaeth i'r Gymraeg. Tra dylai'r safonau iaith sicrhau fod awdurdodau yn gorfod dangos cydnabyddiaeth o'r Gymraeg yn eu gwasanaethau, credwyd ei bod hi'n bwysig bod y Mentrau mewn lle i ymateb i'r cyfleoedd newydd hyn. Byddai sicrhau bod hyfforddiant a marchnad lafur Gymraeg mewn lle i allu darparu gwasanaethau. Pwysleisiwyd gwerth y Mentrau mewn cefnogi sefydlu arwahân fentrau masnachol a chymdeithasol lleol sy'n rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg i ddarparu gwasanaethau.

Yn sgil crebachu arian cyhoeddus, nodwyd profiad yr asiantaethau menter fel rhybudd. Yn ôl eu profiad hwy, petai arian craidd yn cael ei dynnu yn ôl, byddai gofyn canolbwyntio ar weithgarwch masnachol fyddai'n sail i incwm. Y risg fyddai pellhau oddi wrth gynllunio'n strategol i berwyl y Gymraeg.



**Seminarau'r Gymraeg a Pholisi Cyhoeddus**  
**Trefnwyd gan Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru, Prifysgol Aberystwyth**  
**Gwanwyn 2014**

**Seminar 1**

**Teitl:** Cymunedau Cymraeg a Goblygiadau Comisiwn Williams ar Wasanaethau Cyhoeddus i'r Iaith Gymraeg  
**Lleoliad:** Canolfan Ddelweddu, Prifysgol Aberystwyth  
**Dyddiad:** Dydd Gwener 14 Chwefror 2014

**Rhaglen:**

*Rhan 1: Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith*

- Cyflwyniad: Dr Rhodri Llwyd Morgan
- Ymateb ffurfiol: Gareth Ioan
- Trafodaeth

*Rhan 2: Comisiwn Williams ar wasanaethau cyhoeddus: ei oblygiadau i'r iaith Gymraeg*

- Cyflwyniad: Nerys Evans
- Ymateb ffurfiol: Dyfed Edwards (Llefarydd CLILC ar y Gymraeg)
- Trafodaeth

**Seminar 2**

**Teitl:** Cryfhau cyfraniad addysgu i adfywiad y Gymraeg  
**Lleoliad:** Y Deml Heddwch, Parch Cathays, Caerdydd  
**Dyddiad:** Dydd Llun 17 Mawrth 2014

**Rhaglen:**

*Rhan 1: Un iaith i Bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith*

- Cyflwyniad: Yr Athro Sioned Davies
- Ymateb ffurfiol: Meirion Prys Jones
- Trafodaeth

*Rhan 2: Codi Golygon: Adolygiad o Gymraeg i Oedolion*

- Cyflwyniad: Dr Haydn Edwards
- Ymateb ffurfiol: Heini Gruffudd
- Trafodaeth

**Seminar 3**

**Teitl:** Y Gymraeg fel Grym Cymunedol ac Economaidd



**Lleoliad:** Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth  
**Dyddiad:** Dydd Mawrth 20 Mai 2014

**Rhaglen:**

*Rhan 1: Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth*

- Cyflwyniad: Dr Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth
- Ymateb ffurfiol: Llŷr Roberts, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Trafodaeth

*Rhan 2: Potensial y Gymraeg i gyfrannu at wireddu amcanion Rhaglenni Ariannu Ewropeaidd 2014–2020*

- Cyflwyniad: Wynfford James, Comisiynydd y Gymraeg
- Ymateb ffurfiol: Nerys Fuller-Love
- Trafodaeth

*Rhan 3: Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Awe*

- Cyflwyniad: Cefin Campbell, Sbectrwm
- Ymateb ffurfiol: Dr John Glyn
- Trafodaeth

